Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n dysgu**
DYDDIAD:	**29:09:2022**
LLEOLIAD:	**Siambr y Cyngor, Penmorfa**
TEITL:	**Fframwaith Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru Welsh Government School Improvement Guidance**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Rhannu gwybodaeth am ddogfen allweddol parthed Gwella Ysgolion fydd ag oblygiadau i sut mae gwasanaeth Gwella Ysgolion Ceredigion yn gweithredu.**
RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	**Er mwyn sicrhau fod gwybodaeth y Pwyllgor Craffu Addysg parthed disgwyliadau gwella ysgolion cenedlaethol yn gyfredol.**

CEFNDIR:

Yn dilyn ymgynghoriad cenedlaethol a ddaeth i ben ar y 15fed o Fawrth, 2021, rhyddhawyd y ddogfen ganllaw, Fframwaith Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru, sydd bellach yn weithredol o Fedi 2022. Bydd y ddogfen yn troi'n statudol o Fedi 2024.

Nod y ddogfen yw;

- cryfhau effeithiolrwydd hunan-werthuso a chynllunio gwella gan ysgolion
- disodli'r system categoreiddio cenedlaethol gyda phroses gymorth debyg, heb gyhoeddi categorïau ysgolion
- cryfhau a darparu eglurder ynghylch y gwahanu rhwng gweithgareddau gwerthuso / gwella a'r system atebolrwydd
- neilltuo rolau a chyfrifoldebau gwahanol gyrff yn glir mewn system hunan-wella

Mae'r canllawiau yn gosod yr hyn y mae'n '**rhaid**' i ysgolion ac eraill yn y system addysg ei wneud a'r hyn y '**dylai**' ysgolion ac eraill ei wneud o dan y fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Mae **rhwymedigaeth statudol** y tu ôl i'r cyfeiriadau at yr hyn y mae'n '**rhaid**' i ysgolion ac eraill ei wneud. **Arfer gorau**, yn unol â'r canllawiau, yw'r gweithrediadau hynny a nodir fel yr hyn y '**dylai**' ysgolion ac eraill ei wneud.

Drwy gyhoeddi canllawiau gwella ysgolion ar sail anstatudol nawr, mae Llywodraeth Cymru am i ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Estyn ac awdurdodau esgobaethol weithredu a phrofi'r dulliau gwella ysgolion ac atebolrwydd sy'n cael eu nodi ynddynt. Byddwn wedyn yn gwerthuso eu heffaith. Ar ôl hynny bydd Llywodraeth Cymru'n diweddaru'r canllawiau, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgir yn 2022 i 2023 ac yn 2023 i 2024, a'u cyhoeddi ar ffurf canllawiau statudol i ddod i rym ym mis Medi 2024.

PRIF NEGESEUON

1. Pwysigrwydd ar newid diwylliant o atebolrwydd uchel i brosesau hunanarfarnu eang eu tystiolaeth, cyson a gonest, sy'n arwain at gefnogaeth heb fod hyn yn cyfrif yn eu herbyn at ddibenion atebolrwydd (categoreiddio gynt)

2. Bydd ysgolion yn defnyddio'r amrywiaeth ehangach a chyfoethocaf posibl o dystiolaeth sydd ar gael i lywio eu gwaith hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau

3. Bydd ysgolion yn defnyddio set o wybodaeth ansoddol a meintiol i werthuso cynnydd disgyblion, ac ni fyddant yn dibynnu'n llwyr ar ffyrdd cyfyngedig o fesur cyrhaeddiad disgyblion

4. Dylid defnyddio data cymwysterau ac asesiadau crynodol ynghyd ag amrywiaeth ehangach o dystiolaeth. Mae dadansoddi data a gwybodaeth yn bwysig, ond ni ddylai fod yn bwysicach na ffynonellau tystiolaeth eraill ar gyfer hunanwerthuso

5. Y tri maes cyffredinol ar gyfer prosesau hunanwerthuso ysgolion fydd:

- Gweledigaeth ac arweinyddiaeth
- Cwricwlwm, dysgu ac addysgu
- Lles, tegwch a chynhwysiant

6. Bydd y Corff Llywodraethol yn gyrff atebol i'w hysgolion, gan oruchwylio'r broses gwerthuso a gwella. Mae eu rôl yn strategol ac maent yn pennu'r nodau strategol ar gyfer yr hyn mae am i'r ysgol ei gyflawni. Y Pennaeth, a'r Uwch Dîm Rheoli, sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth, cyfeiriad a rheolaeth yr ysgol o fewn y nodau strategol hynny. Y Pennaeth sy'n gyfrifol am drefniadaeth a rheolaeth fewnol yr ysgol ac am gynghori ar y nodau strategol a'u rhoi ar waith.

7. Mae'r Fframwaith Gwella Ysgolion yn rhoi pwysigrwydd ar gynnydd disgyblion ac yn awgrymu dau gwestiwn allweddol ar gyfer gweithgareddau gwella ysgolion:

- Pa mor dda mae disgyblion yn gwneud cynnydd yn y ffyrdd a ddisgrifiwyd yn yr egwyddorion cynnydd, gan eu cefnogi i ddatblygu tuag at y pedwar diben?

- A yw cyflymder cynnydd disgyblion yn unol â disgwyliadau athrawon a'r cwricwlwm?

8. Bydd yn ofynnol i ysgolion roi trefniadau ar waith i alluogi ymarferwyr i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol yn eu hysgol ac ar draws eu clwstwr i archwilio, trafod a deall eu disgwyliadau ar gyfer y modd y dylai disgyblion wneud cynnydd a sut dylai gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau gyfrannu at hyn yng nghwricwlwm eu hysgol

9. Cynllun Datblygu'r ysgol fydd yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer gwella. Bydd angen i Gynllun Datblygu Ysgol bob ysgol nodi dwy flaenoriaeth genedlaethol o Fedi 2022 ymlaen:

- Gwella cynnydd disgyblion drwy sicrhau bod eu dysgu'n cael ei gefnogi gan amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau
- Lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion

Bydd y Cynllun Datblygu Ysgol hefyd yn :

- Cynnwys anghenion dysgu proffesiynol athrawon a chynorthwy-wyr
- Y modd mae'r ysgol yn defnyddio ei hadnoddau
- Cael ei ddiwygio o leiaf unwaith y flwyddyn
- Cael ei ymgynghori arno cyn ei baratoi neu ddiwygio (Pennaeth, disgyblion, rhieni, staff, corff llywodraethu, personau neu gyrff addas eraill)
- Cyhoeddi'r cynllun drwy roi copi i bob aelod o gorff llywodraethu a staff yr ysgol

10. Bydd blaenoriaethau gwella ysgolion, a'u cynlluniau datblygu, yn cael eu cyhoeddi ar ffurf gryno ar wefan yr ysgol.

Dylai gynnwys:

- crynodeb lefel uchel o ganfyddiadau hunanwerthusiad yr ysgol gan gyfleu'r prif gryfderau a'r meysydd i'w datblygu
- blaenoriaethau gwella lefel uchel ar gyfer y flwyddyn bresennol, camau gweithredu a cherrig milltir
- cymorth a gaiff yr ysgol i'w helpu i gyflawni ei blaenoriaethau
- cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol.

11. Bydd Awdurdodau Lleol yn rhannu gwybodaeth sydd ganddynt i helpu ysgolion i hunanwerthuso ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol am ysgolion â'i gilydd. Bydd Awdurdodau Lleol, ar y cyd gydag ysgolion, yn penderfynu pa gymorth sydd angen ar ysgol i gwrdd â'i blaenoriaethau, a gallu'r ysgol i fod o gymorth i eraill. Ni fydd y cymorth a ddarperir drwy ddyraniad amser sefydlog a gall cymorth gynyddu neu leihau unrhyw bryd.

Bydd ysgolion sydd ag anghenion mwy sylweddol yn gallu manteisio ar fwy o gefnogaeth.

12. Bydd Awdurdodau Lleol yn sicrhau gyda'r ysgol bod y blaenoriaethau a nodi yn y CDY yn gywir a pherthnasol i'r ysgol ac yn rhoi cyngor ar lunio'r crynodebau i'w cyhoeddi.

Bydd Awdurdodau Lleol hefyd yn rhoi adroddiad i'r Corff Llywodraethol sy'n amlinellu'r modd y mae'n bwriadu cefnogi/brocera cymorth i fynd i'r afael â blaenoriaethau gwelliant ysgol, ac yn fwy cyffredin.

Bydd y cymorth a roddir i ysgolion:

- yn gydweithredol
- yn galluogi i wella'n gynaliadwy dros gyfnod o amser
- yn gymesur a hyblyg i angen yr ysgol ar y pryd
- yn hybu ac annog gweithio gyda chymheiriaid, cydweithio a chefnogaeth rhwng ysgolion

Bydd Awdurdodau Lleol yn cyhoeddi eu cynlluniau darparu gwasanaethau ar ffurf gryno.

13. Bydd Ymgynghorwyr Gwella yn :

- rhoi adborth a chyngor i ysgolion ar eu prosesau hunanwerthuso
- yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion gan ddefnyddio'r broses hunanwerthuso fel sylfaen
- yn cydweithio gyda'r ysgol i bennu'r gefnogaeth sydd ei hangen
- yn cyfeirio ysgolion ar raglenni arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol perthnasol
- yn trefnu cymorth pwrpasol ychwanegol i ysgolion
- yn rhoi adborth i gyrff llywodraethol ynghyd ag adroddiad blynyddol
- rhannu cryfderau ar draws y system
- hyrwyddo prosesau a chydweithio rhwng ysgolion
- adnabod cryfderau ysgolion i'w galluogi i roi cymorth i ysgolion eraill

14. O Fedi 2024 ymlaen, bydd ysgolion yn cael eu harolygu'n fwy rheolaidd, a bydd Estyn yn ymgysylltu gydag ysgolion cyn mabwysiadu unrhyw ddulliau newydd

Bwriad yr Adran Ysgolion i'w creu dogfen '**Cefnogi a Chydweithio gydag Ysgolion'** yn unol â'r canllawiau newydd hyn er mwyn sicrhau eglurdeb parthed y cydweithio sydd rhwng yr adran a'r ysgolion.

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:

	Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam
LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	***Crynodeb:***
	Hirdymor:
	Cydweithio:
	Cynnwys:
	Atal:
	Integreiddio:

ARGYMHELLION: Eitem er gwybodaeth yw hon.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLION: Eitem er gwybodaeth yw hon.

Enw Cyswllt:	Mary Davies
Swydd:	Rheolwr Corfforaethol Gwella Ysgolion
Dyddiad yr Adroddiad:	8:09:22
Acronymau:	